

Cynllun Busnes Cyngor Tref Aberaeron



2021-2024

Cynnwys

Rhagair y Maer	2
Cyflwyniad	2
Cyngor y Dref	4
Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion	6
Gwybodaeth Ariannol a Llywodraethu	8
Meysydd Cyfrifoldeb Cyngor y Dref	9
Cynllun Busnes 2021-24 - Cyfrifoldebau a Gweithredoedd	10



Rhagair y Maer



Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno Cynllun Busnes Cyngor y Dref ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2021 hyd fis Mawrth 2024.

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o brif ddyheadau Cyngor Tref Aberaeron ar gyfer y tair blynedd nesaf, ac yn amlinellu'r nodau a'r amcanion allweddol.

Dylai ein Cynllun Busnes hefyd rhoi'r hyder i chi fod eich tref yn derbyn cefnogaeth mewn ffordd effeithlon, meddwl ymlaen ac effeithiol. Fodd bynnag, ni chyfyngir gwaith Cyngor y Dref gan ddyheadau ac amcanion ei Gynllun Busnes. Rydyn ni bob amser yn barod i ystyried prosiectau newydd, ymgymryd â heriau newydd a gwrando ar

eich syniadau.

Mae'r Cyngor yn deall fod ymrwymiad a chynnwys cymunedol yn allweddol ar gyfer ein llwyddiant (er bod y pandemig Covid-19 wedi gwneud hyn yn anodd), ac felly croesawn eich sylwadau a'ch awgrymiadau wrth i ni symud ymlaen.

Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Busnes yn ddatganiad o weledigaeth Cyngor y Dref ar gyfer y dref, ei phwrpasau, gwerthoedd, amcanion a blaenoriaethau allweddol. Ein bwriad yw y bydd hwn yn ddogfen weithredol, ac nid yn ddogfen i'w roi ar y silff.

Bwriad y Cynllun Busnes yw rhoi i drigolion Aberaeron ddealltwriaeth glir o beth mae Cyngor y Dref yn ceisio'i gyflawni a sut y bwriedir ei draddodi. Mae'n rhoi manylion ar beth mae Cyngor y Dref yn bwriadu rhoi ffocws arno dros y tair blynedd nesaf. Defnyddir y Cynllun Busnes bob blwyddyn i gynllunio gweithgareddau a gosod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Fe fydd strategaeth gytûn yn medru darparu fframwaith i Gyngor y Dref weithio o'i fewn, a'i alluogi i weithredu mewn ffordd gyson a chydgyssylltiol. Mae'r cyfarwyddyd strategaethol ar gyfer y Cynllun Busnes yn deillio o Gynllun Cynefin Aberaeron a ddatblygwyd gan Gyngor y Dref yn 2018. Roedd cynnwys y gymuned yn rhan fawr o ddatblygu'r Cynllun Cynefin, ac felly seiliwyd y Cynllun Busnes yma i raddau health ar gynhwysiad cymunedol.

Bydd y Cynllun yn helpu'r Cyngor i leihau risgiau yn ogystal â chyfiawnhau ei gyllideb a gweithredoedd. Bydd yn darparu meincnod ar gyfer adolygu perfformiad y Cyngor a dangosir bod y Cyngor wedi cynllunio pob gweithgaredd yn ofalus. Ar yr un pryd, bydd y Cynllun Busnes yn helpu'r gymuned leol i graffu dealltwriaeth well o waith Cyngor y Dref.

Cynnwys y Gymuned ym mhroses y Cynllun Busnes

Er mwyn sicrhau fod y Cynllun Busnes yn wir gynrychioli pennaf les Aberaeron, bydd Cyngor y Dref yn parhau i gynnwys y gymuned ble bynnag posib yn y cynllunio a gwneud penderfyniadau.

Monitro'r Cynllun Busnes

Fe fydd gwerthuso'r cynnydd yn erbyn rhestr y gweithrediadau yn digwydd mewn cyfarfodydd Gweithgor Cynllunio Cyngor y Dref yn ogystal â chyfarfodydd misol Cyngor y Dref. Sefydlwyd y Gweithgor Cynllunio yn yr haf 2020 i helpu symud ymlaen y gwaith yn ystod pandemig Covid-19.

Bob blwyddyn mae gan Gyngor y Dref Gynllun Gweithredu Blynyddol ac mae'r Gweithgor Cynllunio yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu gweithrediadau'r Cynllun Busnes, gan geisio deall y cynnydd a wnaed a gweld os oes unrhyw rwystrau. Maent wedyn yn adrodd nôl i Gyngor y Dref bob mis.

Bydd y Cynllun Busnes cyfan yn cael ei adolygu yn flynyddol er mwyn cadw'r ddogfen yn berthnasol a chyfamserol.

Cyngor y Dref

Trosolwg Cyngor y Dref

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn gorff corfforaethol; nid yw'n sefydliad gwirfoddol neu grŵp cymunedol. Mae'r Cyngor yn haen gyntaf llywodraeth leol.

Mae yna ddwy haen llywodraeth leol, gyda chyfrifoldebau gwahanol i bob un. Yr haen gyntaf a mwyaf lleol yw Cyngor Tref Aberaeron, gyda rôl bwysig i hyrwyddo'r dref, cynrychioli ei diddordebau a chefnogi gwaith gwahanol grwpiau o fewn y gymuned.

Cyngor Sir Ceredigion yw'r ail haen, sy'n gyfrifol am wasanaethau megis parcio ceir, glanhau strydoedd, priffyrdd gan gynnwys y ffyrdd a'r palmentydd, addysg, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, hawliau tramwy cyhoeddus a llyfrgelloedd, i enwi ond ychydig.

Mae gan Gyngor Tref Aberaeron ddeuddeg Cynghorydd i'w hethol bob pedair blynedd. Dewisir Maer y Dref yn flynyddol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor y Dref, ynghyd ag apwyntiad y Dirprwy Faer.

Ni chaiff y Cynghorwyr eu talu, ac maent yn ymgymryd eu hamser i wella Aberaeron a chynnal y dref fel lle deniadol a chynaliadwy i fyw, ymweld a gweithio.

Dyletswyddau Cyngor y Dref

Mae'r dyletswyddau a roddir ar y Cyngor yn gyfyngedig. Mae llawer o'r dyletswyddau yma yn drefniadol ac yn cynnwys fod rhaid ethol Cadeirydd neu Faer, fod rhybudd o leiaf tri diwrnod am bob cyfarfod, a rhaid cynnal dim llai na thri chyfarfod yn ogystal ag un cyfarfod blynyddol yn ystod y flwyddyn.

Mae yna rai dyletswyddau ynghylch swyddogaethau, ac mae'r rhain yn cynnwys y ffaith fod rhaid i gynghorau ystyried effeithiau troseddau ac anrhefn o fewn eu penderfyniadau.

Pwerau Cyngor y Dref

Mae pwerau Cyngor lleol yn eang ac amrywiol. Dyma rai o'r pethau y gall Cyngor lleol ei wneud - darparu neu gyfranogi at ystod eang o gyfleusterau hamdden, cynlluniau twristiaeth, gwyliau, garddwest a'r celfyddydau, arosfannau bws, biniau sbwriel, llwybrau troed a glanhau'r strydoedd, i enwi ond ychydig.

Rôl Cyngor y Dref

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn cynrychioli barn, anghenion a dyheadau'r gymuned, yn gweithredu fel llais cydlynol. Mae gan y Cynghorwyr gyfrifoldeb cyfunol i wrando ac ymateb i drigolion.

Tra bod gan y Cynghorwyr gyfrifoldeb unigol ynghylch y broses gwneud penderfyniadau, mae pob penderfyniad yn cael ei gadarnhau gan y Cyngor llawn. Mewn geiriau eraill, mae gan bob Cynghorydd ddeuddegfed ran yn y penderfynu a'r hawl pleidleisio. Cofnodir pob

penderyniad a gadarnhawyd o fewn cofnodion cyfarfod y Cyngor, ac mae'r Clerc yn gyfrifol am eu gweithrediad a darparu diweddariadau yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn amodol ar archwiliad mewnol ac allanol bob blwyddyn, ac mae yna ddyletswydd i benodi Archwilydd Mewnol. Mae yna hefyd rwymedigaeth i'r Cyngor weithredu gyda didwylledd a thryloywder yn ogystal â glynu wrth Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Ddeddf Diogelu Data 2018.

Mae rôl a chyfrifoldeb pob Cyngor lleol yn llawer uwch na'r argraffiadau a ragwelir gan aelodau'r cyhoedd.

Staff a Rheolaeth Cyngor y Dref

Mae gan y Cyngor un cyflogai. Gweithredir gweinyddiaeth Cyngor y Dref gan Clerc y Dref a apwyntir gan y Cyngor, ac ef hefyd yw Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor.

Rhaid i Clerc y Dref weithredu pob swyddogaeth yn ôl y gyfraith fel Swyddog Priodol Cyngor y Dref, a chyflenwi pob hysbysiad statudol a bennir gan ddeddfwriaeth yn enwedig y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion

Dyma weledigaeth Cyngor y Dref ar gyfer Aberaeron:

“Cofleidio newid ond eto cadw ei threftadaeth ddiwylliannol fel lle arbennig o fewn Ceredigion.”

Nodau strategaethol Cyngor y Dref dros gyfnod y Cynllun Busnes yma yw:

1. Gwneud y dref yn lle deniadol i fyw.
2. Hyrwyddo twf busnes a chyfleoedd cyflogaeth gwell.
3. Cadw a gwella gwasanaethau er lles y dref a'r gymuned ehangach.
4. Cynnal a chadw a hyrwyddo ei threftadaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg.
5. Parhau i ddatblygu Aberaeron fel prif gyrchfan twristiaeth.

Amcanion allweddol Cyngor y Dref i helpu cyflawni'r nodau strategaethol yw:

1. Gwasanaethu'r rheiny sy'n byw, astudio a gweithio yn Aberaeron a'r rheiny sy'n ymweld â'r dref.
2. Hyrwyddo a chynrychioli barn a dyheadau'r gymuned ar lefel leol, sirol a chenedlaethol.
3. Darparu gwasanaethau a chyfleusterau o safon uchel a chost effeithiol i helpu cwrdd â gofynion a dymuniadau'r trigolion.
4. Gweithio mewn partneriaeth, neu fel arall, gyda chyrrff statudol a gwirfoddol eraill, busnesau ac unigolion i sicrhau safon well o wasanaethau a chyfleusterau i gwrdd ag anghenion a disgwyliadau trigolion Aberaeron.
5. Cyflawni mwy o ddylanwad ar drosglwyddiad a datblygiad gwasanaethau yn y dref i sicrhau ystyriaeth pennaf les Aberaeron.
6. Chwilio am gyfran deg buddsoddiad yn y dref gan yr awdurdodau lleol a rhanbarthol.
7. Gwella a hyrwyddo treftadaeth hanesyddol a diwylliannol Aberaeron.
8. Annog a hyrwyddo bywiogrwydd economaidd a masnachol canol y dref ac ymdrechu i gael amgylchfyd pleserus, glân a diogel ar hyd y dref.
9. Hyrwyddo a chefnogi grwpiau a chymdeithasau gwirfoddol lleol sy'n ceisio rhoi cymorth i drigolion ac ymwelwyr Aberaeron.

10. Bod yn Gyngor Tref proffesiynol, cymwys a gofalgar.
11. Helpu creu cymuned ofalgar a chynhwysol yn gymdeithasol sydd yn cofleidio'r holl drigolion, heb ystyried oedran, diwylliant, incwm, hil, tueddfryd rhywiol, cenedl, anabledd neu grefydd, ac sydd yn ceisio datblygu eu lles, gwybodaeth, dealltwriaeth a chydweithrediad.

Gwybodaeth Ariannol

Mae cyflawniad llwyddiannus amcanion y Cyngor yn dibynnu ar y Cyngor a'r Clerc i reoli a thraddodi prosiectau, prosesau, llywodraethu a gweithgareddau at safon uchel, ac felly'n sicrhau hyder i gyflawni'r amcanion a nodwyd uchod.

Ariannir Cyngor y Dref gan drigolion Aberaeron, trwy beth a elwir yn Archebiant. Dyma'r dreth leol a osodir gan Gyngor y Dref a'i cesglir ar ei ran gan Gyngor Sir Ceredigion fel rhan o Dreth y Cyngor.

Prif eitemau'r gwariant yw:

- Cae Sgwâr
- Parc-y-Fro
- Coedlannau Allt-y-graig a Banc Bach
- Goleuadau'r Harbwr
- Arddangosfeydd blodau'r dref
- Nadolig Cymunedol
- Prosiectau o fewn thema gymunedol sy'n gynwysedig yng Nghynllun Busnes Cyngor y Dref
- Gweinyddiaeth gyffredinol Cyngor y Dref a chyflog y Clerc
- Grantiau sefydliadau cymunedol
- Cyfraniad at lanhau toiledau Traeth y De
- Cyfraniad at redeg y Ganolfan Wybodaeth Twristiaeth.

Ar wahân i gyfanswm bychan wrth gefn, dosrannir y gyllideb i gyd. Gellir dosrannu unrhyw arian wrth gefn na ddefnyddir i gronfa gyfalafol, a'i adeiladu at bwrpasau penodol, er enghraifft prosiectau cymunedol arbennig o fewn y Cynllun Busnes.

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg i'w arian wrth gefn ac adolygir hyn yn flynyddol. Ar hyn o bryd gosodir lleiafswm yr arian cyffredinol wrth gefn at chwe mis o gostau gweithredu.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes yma, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Parhau i wella proses gosod y gyllideb a'r monitro ac adnabod effeithiolrwydd
- Sicrhau bod adroddiadau incwm a gwariant yn cael eu hadolygu
- Sicrhau bod gweithdrefnau cyllidol ac archwiliol yn cael eu cwblhau yn amserol.

Llywodraethu Cyngor y Dref

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn anelu at fod yn Gyngor Tref proffesiynol, cymwys a gofalgar. Anelir at fod yn agored ac yn atebol ym mhob peth a wneir, wrth sicrhau bod rheolaeth adnoddau Cyngor y Dref yn drwyadl a diogel.

Prif feysydd cyfrifoldeb Cyngor Tref Aberaeron

Mae Cyngor y Dref yn gyfrifol am:

- Cae Sgwâr
- Parc-y-Fro
- Coedlan Allt-y-graig
- Coedlan Banc Bach
- Darpariaeth goleuadau Nadolig
- Darpariaeth arddangosfeydd blodau'r dref
- Darpariaeth Grantiau Sefydliadau Cymunedol (Cymorth Grantiau)
- Cyflwyno sylwadau ar bob cais cynllunio a cheisiadau newid defnydd yn Aberaeron fel ymgynghorai statudol ar Gyngor Sir Ceredigion.

Cynrychiolir y Cyngor ar sawl sefydliad allanol, gan gynnwys:

- Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Aberaeron
- Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Aberaeron
- Grŵp Defnyddwyr yr Harbwr
- Pwyllgor Rheoli Pwll Nofio Aberaeron
- Pwyllgor Rheoli Neuadd Goffa Aberaeron.

Cynllun Busnes 2021-24 - Cyfrifoldebau a Gweithredoedd

1. Goleuadau Nadolig a Digwyddiad Nadolig Cymunedol

Cyngor y Dref sydd yn gyfrifol am ddigwyddiad blynyddol Nadolig Cymunedol, y Goeden Nadolig a'r goleuadau o gwmpas y Cae Sgwâr.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Trefnu gosod goleuadau Nadolig y dref gyda'r partneriaid
- Trefnu prynu a gosod Coeden Nadolig y Dref
- Trefnu a gweithio mewn partneriaeth gyda busnesau a grwpiau eraill yn Aberaeron i drefnu digwyddiad Nadolig Cymunedol y dref.

2. Cae Sgwâr

Mae gan Gyngor y Dref gyfrifoldeb llawn am yr ardal yma.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Torri'r gwair a'r cloddiau yn rheolaidd
- Archwilio a chynnal cyfarpar y parc yn rheolaidd
- Gwella cynllun a diogelwch ardal y parc.

3. Arddangosfeydd blodau

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Plannu a chynnal y gwelyau blodau dynodedig fel bo angen
- Dyfrhau'r planhigion fel bo angen.

4. Goleuadau'r Harbwr

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Cynnal ac ail-osod goleuadau'r Harbwr fel bo angen.

5. Gwirfoddolwyr

Bydd Cyngor y Dref yn defnyddio gwirfoddolwyr i helpu cyflawni ei amcanion.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Adolygu Strategaeth Gwirfoddoli yn rheolaidd ac annog gwirfoddolwyr yn y dref
- Gweithio'n agos gyda gwirfoddolwyr gan sicrhau fod ganddynt yr adnoddau i'w helpu.

6. Parc-y-Fro

Mae gan Gyngor y Dref gyfrifoldeb llawn am yr ardal yma.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Torri'r gwair yn rheolaidd
- Archwilio a chynnal cyfarfpar y parc yn rheolaidd
- Gwella cynllun a diogelwch ardal y parc.

7. Coedlan Allt-y-graig

Mae gan Gyngor y Dref gyfrifoldeb llawn am yr ardal yma.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Torri tyfiant ar y llwybr fel bo angen i gynnal mynediad diogel
- Cynnal y gwaith pren gan gynnwys y clwydi, meinciau a'r arwyddion.

8. Coedlan Banc Bach

Mae gan Gyngor y Dref gyfrifoldeb llawn am yr ardal yma.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Torri tyfiant ar y llwybr fel bo angen i gynnal mynediad diogel
- Cynnal y gwaith pren gan gynnwys y clwydi, meinciau a'r arwyddion.

9. Cyfraniadau a Grantiau Blynyddol

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn ymrwymo i gefnogi a chryfhau'r nifer o rwydweithiau a grwpiau cymunedol sydd yn rhoi cymorth i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i Aberaeron fel lle i fyw, gweithio ac ymweld, i bawb.

Bydd Cyngor Tref Aberaeron yn parhau i gefnogi sefydliadau dielw lleol trwy ei gynllun grantiau. Bydd yn gweithredu i gynyddu effaith y grantiau trwy:

- Adolygu polisi grantiau yn gyson yn nhermau asesu effaith posib y grant
- Cynyddu hyrwyddo gweithredol unrhyw geisiadau achlysurol am arian ar wefan Cyngor y Dref, y cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg
- Gofyn am adborth oddi wrth ymgeiswyr grant llwyddiannus i werthuso llwyddiant y prosiect ynghyd â mynychu cyfarfod y Cyngor i roi diweddariad ar lafar.

10. Cyfathrebiadau

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn cydnabod manteision cyfathrebu cyson ac effeithiol er mwyn adeiladu perthynas gadarnhaol gyda thrigolion, sefydliadau lleol, busnesau a phartneriaid allweddol.

Buddsoddodd mewn gwefan newydd yn ddiweddar i gefnogi ymrwymiad parhaol y Cyngor yn nhermau ymrwymiad yn y gymuned, tra'n amlygu gwaith cadarnhaol Cyngor y Dref

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Parhau i ddatblygu'r wefan gan ddarparu gwybodaeth am Gyngor y Dref a chyfeirio pobl at ddarparwyr gwasanaeth eraill
- Cofnodi newyddion cyson ynghylch mentrau Cyngor y Dref ar y wefan, a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wasg
- Cryfhau brand Cyngor y Dref
- Adolygu a gwella dulliau eraill o ddsrannu ar gyfer gwybodaeth a newyddion Cyngor y Dref
- Darparu cyfle ym mhob cyfarfod Cyngor y Dref i aelodau'r wasg a'r cyhoedd ofyn cwestiynau a derbyn diweddariadau perthnasol
- Darparu fersiynau diweddar o Gynllun Busnes Cyngor y Dref ar wefan Cyngor y Dref a darparu copïau caled yn ôl yr angen
- Crynhoad adroddiad blynyddol yn ymdrin â gweithgareddau Cyngor y Dref yn ystod y flwyddyn flaenorol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Parhau i adolygu anghenion gwybodaeth a chyfathrebu'r Cyngor
- Diweddar'u'n gyson hysbysfyrdau'r Cyngor gyda gwybodaeth berthnasol a chyfredol.

11. Heddlu a Diogelwch Cymunedol

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn cydweithio'n agos gyda Heddlu Dyfed Powys a Chyngor Sir Ceredigion ar faterion ynghylch Diogelwch Cymunedol. Mae'r Cynghorwyr yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Plismona yn y Gymdogaeth a swyddogion Adran Diogelwch y Gymuned o fewn Cyngor Sir Ceredigion.

Bydd Cyngor Tref Aberaeron yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Heddlu Dyfed Powys a sefydliadau eraill fel gallant draddodi gwasanaeth sydd yn weledol, hygyrch ac ymatebol i anghenion pobl leol.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Gwrando ar drigolion ac adrodd nôl ar eu pryderon i'r awdurdodau perthnasol
- Gweithio gyda'r Heddlu a swyddogion Diogelwch y Gymuned eraill Cyngor Sir Ceredigion i gyfeirio at faterion a adnabuwyd a darparu sicrwydd pan fo angen
- Rhoi gwybodaeth i drigolion ar unrhyw gynnydd a wnaed a'u cyfeirio at yr awdurdodau perthnasol
- Parhau i weithio gyda Heddlu Dyfed Powys i rannu gwybodaeth ar drosedd lleol a materion diogelwch. Mae hwn yn cynnwys gwahodd Heddlu Dyfed Powys i fynychu

cyfarfodydd Cyngor y Dref, a Chyngor y Dref yn anfon unrhyw gwestiynau neu bryderon atynt

- Hwyluso mynediad at yr Heddlu, drwy gynnwys gwybodaeth gyswllt yr Heddlu ar wefan Cyngor y Dref a chyfryngau cymdeithasol eraill
- Mynnu Comisynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys yn atebol ynghyd â'r Arolygydd Heddlu daearyddol trwy adolygu ac ymateb i strategaethau plismona lleol ar ran y trigolion.

12. Cynllunio a'r Amgylchedd

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn ymgynghorai statudol ar gyfer unrhyw gais cynllunio a gyflwynir o fewn ffin y dref neu o fewn ardal ehangach a all ddylanwadu ar y dref neu ei thrigolion.

Cyngor Sir Ceredigion yw'r awdurdod cynllunio lleol, a hwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Annog trigolion i gymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriadau cynllunio strategaethol sydd yn effeithio ar Aberaeron
- Parhau i roi sylwadau ar bob dogfen ac ymgynghoriad cynllunio strategaethol sy'n effeithio ar Aberaeron, gan sicrhau bod ystyriaeth gwybodaeth a dealltwriaeth y Cyngor o'r cyd-destun lleol yn cael ei ystyried yn y penderfyniadau cynllunio
- Adolygu dull yr ystyriaeth gyfredol o gefnogi ceisiadau cynllunio, gan sicrhau bod ei argymhellion yn gadarn, yn glir ac yn cynrychioli lles y gymuned ble bynnag posib
- Parhau i sefydlu partneriaeth weithio agos gyda Chyngor Sir Ceredigion, swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, i sicrhau ystyriaeth anghenion a lles Aberaeron mewn penderfyniadau cynllunio
- Sicrhau bod barn Cyngor y Dref yn cael eu cynrychioli'n briodol yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion
- Ystyried opsiynau ar gyfer targedu rhagweithiol busnesau newydd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion Aberaeron ac sy'n cefnogi cynladwyedd economaidd Aberaeron
- Ystyried yn ofalus unrhyw geisiadau am waith diogelu coed, ardaloedd agored ac adeiladau o fewn ardal gadwraeth y dref.

13. Priffyrdd

Nid yw Cyngor y Dref yn gyfrifol yn uniongyrchol am draddodi priffyrdd, trafndiaeth, hygyrchedd gwasanaethau parcio yn y dref, ond gwneir ymdrech i sicrhau fod y cyrff traddodi perthnasol yn darparu gwasanaeth fforddiadwy o ansawdd dda wrth ystyried anghenion a disgwyliadau'r trigolion ynghyd â busnesau'r dref.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion ar gynllun hirdymor ar gyfer trwsio heolydd a phalmentydd yn y dref, gan gynnwys cynnal effeithiol ymylon y ffyrdd a ble'n addas arwyddbyst cynaliadwy.

- Parhau i goladu ac anfon ymlaen adroddiadau am balmentydd neu gyrbau peryglus at Gyngor Sir Ceredigion
- Cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion i ddylanwadu ar amserlen gwaith priffyrdd fel gellir lleihau aflonyddwch ar drigolion, ac osgoi cyfnodau brig ymwelwyr ble'n bosib
- Darparu gwybodaeth glir ar wefan Cyngor y Dref i ddarparu cyfarwyddyd ar sut i gyfeirio at faterion priffyrdd
- Gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion i gyflenwi a chynnal nifer addas o finiau graeanu'r gaeaf a chynghori ar safleoedd addas
- Cysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion i gyflwyno cynlluniau diogelwch y ffyrdd a manau cerdded a gysylltwyd gydag asesiad risg sy'n seiliedig ar ffeithiau
- Adnabod manau ble mae angen gwelliannau ynghylch goleuadau stryd a chysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion i ddarparu hyn; hefyd edrych ar fesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer y goleuadau stryd cyfredol ac ystyried rhai amgen.

14. Glanweithdra'r Strydoedd

Er nad yw Cyngor y Dref yn uniongyrchol gyfrifol am draddodi gwasanaethau amgylcheddol, mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r cyrff perthnasol i annog safon uchel o wasanaeth. Cyngor Sir Ceredigion sy'n gyfrifol am lanweithdra strydoedd Aberaeron.

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn trefnu casglu sbwriel yn rheolaidd. Cefnogir hyn gan grwpiau eraill sydd yn helpu'n aml.

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Cysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir
- Gwrando ar ac ymateb i faterion a godwyd gan drigolion a busnesau ynghylch glanweithdra'r strydoedd a biniau sbwriel diffygiol
- Cyfeirio trigolion a busnesau trwy wefan y Cyngor sut i gyfeirio materion at Gyngor Sir Ceredigion.

15. Llwybrau Cyhoeddus a Hawliau Tramwy

Mae yna sawl ffordd hawl tramwy o fewn Aberaeron a'r wlad o'i hamgylch.

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn gyfrifol am ddim ond dau lwybr cyhoeddus ond mae'n ymgynghori'n gyson a hyrwyddo barn y gymuned gyda Chyngor Sir Ceredigion

Yn ystod cyfnod y Cynllun Busnes, bydd Cyngor Tref Aberaeron yn:

- Cysylltu gyda'r partneriaid perthnasol i wella arwyddion ac ansawdd y llwybrau cyhoeddus ynghyd â hawliau tramwy o fewn y dref.

16. Economi a Datblygiad

Mae Cyngor Tref Aberaeron yn annog a hyrwyddo bywiogrwydd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a masnachol y dref. Er bod cronfa Cyngor y Dref yn gyfyngedig, mae'n gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau a sefydliadau priodol i hybu a hwyluso pob cyfle.

Yn nhermau cynllunio a datblygu economaidd, arweinir Cyngor y Dref yn ei weithgareddau a'i benderfyniadau, nid yn unig gan ei amcanion corfforaethol, ond hefyd gan yr amcanion datblygu economaidd penodol isod:

- Cefnogi ymagwedd gytbwys i dwf economaidd, gan sicrhau cynaladwyedd y dref a gweithio gyda phartneriaid allweddol i gyflawni'r canlyniad
- Cefnogi datblygiad twristiaeth, gan gydnabod mai hwn yw un o brif agweddau'r economi lleol, tra ar yr un pryd annog datblygiad economaidd ehangach sydd yn amddiffyn cynaladwyedd Aberaeron
- Annog cymysgedd masnachol bywiog a gwneud yr hyn sydd angen i hybu a chefnogi busnesau newydd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion Aberaeron a'r gymuned ehangach yn gyffredinol
- Cefnogi darpariaeth digwyddiadau a gwyliau o ansawdd a rheolaeth dda yn y dref, gyda'r gefnogaeth ariannol wedi'i ffocysu ar ddathliadau cymunedol sydd yn gwella lles y trigolion
- Hwyluso cydlyniant mentrau canol y dref sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Ceredigion, Pwyllgor Gwelliannau Tref Aberaeron a phartneriaid perthnasol eraill
- Cefnogi datblygiad masnach a diwydiant ysgafn ar gyfer cyfleoedd gwaith gwell yn y dref, gyda'r ffocws ar hyfforddiant, addysg a datblygiad ieuencid
- Hyrwyddo a chefnogi adloniant a'r celfyddydau.